**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 26 Ebrill 2016

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Barbara Smith

**Awdur yr Adroddiad:** Catrin Roberts

**Teitl:** **Aelodau'n Cymryd Rhan mewn Apeliadau Cyflogaeth**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud ag aelodau'n cymryd rhan mewn rhai prosesau cyflogaeth.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

**Ceisio cytundeb y Cabinet i newid y gofyniad i aelodau gymryd rhan mewn Apeliadau Disgyblu a Gwerthuso Swyddi.**

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn cytuno nad oes gofyniad i aelodau gymryd rhan mewn Apeliadau Disgyblu a Gwerthuso Swyddi.

Bod y Cabinet yn cytuno bod Apeliadau Disgyblu yn cael eu clywed gan y lefel nesaf o reolwr, rheolwr arall, Pennaeth Gwasanaeth neu Gyfarwyddwr priodol. Pan fydd apêl yn erbyn diswyddo yna byddai angen trefnu Panel dau Gyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth.

Bod y Cabinet yn cytuno i Apeliadau Gwerthuso Swyddi gael eu cadeirio gan Bennaeth Gwasanaeth gydag un cynrychiolydd rheolaeth ac un cynrychiolydd undeb llafur.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Ar hyn o bryd mae Aelodau'n cymryd rhan mewn apeliadau disgyblu a gwerthuso swyddi. Mae pob apêl arall yn cael ei glywed gan reolwr y rheolwr, y Pennaeth Gwasanaeth neu unrhyw reolwr/Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr priodol arall.

Pwrpas yr Apêl (fel y'i diffinnir gan ACAS) yw ystyried os oedd y broses yn deg o ran dull ac os yw'r gosb a roddwyd o fewn ystod rhesymolrwydd. Dylai'r broses ymdrin â'r apêl yn ddiduedd a ble fo'n bosib dylid ei drin gan "reolwr" nad yw wedi ymwneud â'r achos yn flaenorol. Mae canllawiau ACAS hefyd yn nodi y dylid gwrando ar Apêl heb oedi afresymol.

Mae'r cyfansoddiad hefyd yn nodi:

*Mewn ymgynghoriad gyda Phennaeth Adnoddau Dynol Strategol ble bo'n addas, mae gan bob Prif Swyddog awdurdod i weithredu o safbwynt materion staffio yn unol ag unrhyw Bolisïau Adnoddau Dynol ac i apwyntio staff i lefel is na lefel Prif Swyddog.*

Mewn gwirionedd mae rôl y cynghorydd yn ymwneud â materion strategol rheoli bob dydd, ac mae materion gweithredol yn cael eu dirprwyo i swyddogion. Proses reoli gweithredu yw apeliadau disgybl a gwerthuso swyddi, nid proses ddemocrataidd. Cynigir felly bod yr apeliadau ar gyfer y ddwy broses hyn yn cael eu trin ar lefel swyddog, heb yr angen i aelod gymryd rhan.

Mae hyn yn golygu y byddai Apeliadau Disgyblu yn dilyn y broses gyfredol ar gyfer Cwynion, Absenoldeb a Galluogrwydd, ble bydd apêl yn cael ei glywed gan y lefel nesaf o reolwr, rheolwr arall, Pennaeth Gwasanaeth neu Gyfarwyddwr priodol. Pan fydd apêl yn erbyn diswyddo yna byddai angen trefnu Panel dau Gyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth.

Bydd yr ymagwedd hon yn cydymffurfio gyda chod ymarfer ACAS sy'n nodi "Dylai proses apêl ymdrin â'r apêl yn ddiduedd, a ble mae'n bosib dylid ei drin gan reolwr nad yw wedi ymwneud â'r achos yn flaenorol.

Ar gyfer apeliadau Gwerthuso Swyddi, cynigir bod Pennaeth Gwasanaeth yn cadeirio gydag un cynrychiolydd rheolaeth ac un cynrychiolydd undeb llafur.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'r penderfyniad yn effeithio ar y Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes cost ychwanegol ynghlwm â hyn ac ni fydd yn effeithio ar wasanaethau.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Nid effeithir ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig wrth roi'r penderfyniad hwn ar waith.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae hyn wedi ei drafod sawl gwaith fel rhan o'r Cyd Gyfarfod Corfforaethol. **Aethpwyd ag adroddiad i'r CBYLI ar 10 Chwefror 2016. Roedd yr Undebau Llafur yn gytûn gyda'r cynnig ond mynegodd rhai aelodau bryder gan fod hyn yn effeithio ar eu cylch gwaith.**

Mae hyn hefyd wedi ei drafod gyda Phrif Swyddog Adnoddau Dynol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Llywodraeth Leol 2000 a rheoliadau a wneir dan y Ddeddf honno.